



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ieuenctid Casnewydd/Newport Youth

**Ieuenctid Casnewydd,
Cyngor Dinas Casnewydd,
Gwasanaeth Ieuenctid a Chwarae Casnewydd,
Llawr 3,
Casnewydd
NP20 4AX**

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2024

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

Cyd-destun y ddarpariaeth

Mae Casnewydd yn ddinas sy'n tyfu'n gyflym. Yng nghyfrifiad 2021, roedd 17.4% o'r boblogaeth o 159,600 o bobl yn 10-24 oed. Yn 2022, Casnewydd oedd â'r lefel uchaf o ardaloedd 'mwyaf difreintiedig' yng Nghymru, ac roedd bron i 23% o'r 95 ardal yng Nghasnewydd yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Cyfran y trigolion sy'n dweud eu bod yn Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu'n Asiaidd Cymreig oedd 7.8% o gymharu â 2.9% ledled Cymru, ac mae 2.3% o'r boblogaeth yn Ddu, Caribiaidd ac Affricanaidd o gymharu â 0.9% ledled Cymru. Cyfran y siaradwyr Cymraeg oedd 9.3% o gymharu ag 17.8% ledled Cymru.

Hwn yw'r arolygiad cyntaf o waith ieuenctid yng Nghasnewydd.

Nod darpariaeth gwasanaeth ieuenctid a chwarae Casnewydd yw 'Grymuso plant a phobl ifanc yng Nghasnewydd i ffynnu o fewn y ddinas'. Mae'r ddarpariaeth gwasanaeth ieuenctid a chwarae wedi cael ei hailfodelu'n llwyr dros y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf, gan ailadeiladu clybiau ieuenctid lleol mewn pedair ardal ddaearyddol yn y ddinas. Mae'r gwasanaeth yn wasanaeth ieuenctid a chwarae o fewn cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn ceisio pontio rhwng gwaith chwarae, clybiau ieuenctid iau a chlybiau ar gyfer pobl ifanc hŷn. Ar hyn o bryd, darperir ar gyfer anghenion pobl ifanc hŷn a darpariaeth dargedig trwy gyfuniad o gyllid a rennir, gwasanaethau wedi'u comisiynu a gwaith partneriaeth gyda darparwyr gwasanaethau ehangach ar gyfer pobl ifanc yng Nghasnewydd. Er enghraifft, darperir elfen addysg fwy ffurfiol gwaith ieuenctid o dan bartneriaeth y Fframwaith Ymgysylltiad a Chyfranogiad Ieuenctid trwy brosiectau addysg ASPIRE gydag ysgolion. Mewn enghraifft arall, gwneir gwaith ieuenctid datgysylltiedig trwy brosiect Dyfodol Cadarnhaol Casnewydd Fyw.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am bobl ifanc wrth werthuso deilliannau ac ansawdd gwaith ieuenctid. Maent yn ystyried hyn ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Mae rhywfaint o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am bobl ifanc yng Nghasnewydd wedi'i nodi isod:

- Mae nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant (NACH) yng Nghasnewydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer Cymru.
- Yn ôl ystadegau Llywodraeth Cymru, yn 2023 i 2024, roedd 27,778 o bobl ifanc rhwng 11-25 oed yn byw yng Nghasnewydd. Bu'r gwasanaeth ieuenctid a chwarae a'i phartneriaid wedi eu comisiynu yn gweithio gyda 1,778 o'r bobl ifanc hyn. Mae'r 'cyrhaeddiad' yma ymysg y chwech isaf ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae 7% o bobl ifanc sydd wedi eu cofrestru yn ennill dyfarniad cydnabyddedig trwy eu darpariaeth gwasanaeth ieuenctid a chwarae.
- O ran cefndir y ddarpariaeth gwasanaeth ieuenctid a chwarae, mae cyfradd y troseddau â chyllyll, ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithgarwch llinellau cyffuriau yn gymharol uchel yn ardal y Ddinas.

Trosolwg

Mae gwasanaeth ieuenctid a chwarae Casnewydd yn gwrandio ar bobl ifanc wrth gynllunio gwasanaethau. O ganlyniad, mae pobl ifanc yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn cyfleoedd gwaith ieuenctid, yn mwynhau eu hunain ac yn datblygu eu dealltwriaeth o ystod o faterion pwysig. Maent yn huawdl a hyderus i fynegi eu hunain, ac yn cymysgu'n dda gyda'i gilydd yn eu hardaloedd lleol. Maent yn gwella'u hyder a'u hunan-barch, er enghraifft trwy gyfleoedd i drafod testunau fel delwedd y corff neu iechyd meddwl yn hyderus. Ym mhrosiectau â ffocws addysg ASPIRE, mae pobl ifanc sydd mewn perygl o roi'r gorau i'w haddysg yn gwella'u hymddygiad a'u presenoldeb. Trwy weithgareddau targedig eraill, mae ychydig o bobl ifanc yn ennill medrau gwerthfawr yn yr awyr agored, yn dysgu medrau darlledu ac yn cynyddu eu gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan yn y celfyddydau mynegiannol yn gyfyngedig. Mae ychydig o bobl ifanc yn ennill achrediad ffurfiol am eu gwaith neu'n derbyn tystysgrifau lleol i gydnabod eu cyflawniadau.

Trwy Gyngor Ieuenctid Dinas Casnewydd, mae gan bobl ifanc rôl weithredol mewn gwneud penderfyniadau lleol am faterion sy'n effeithio arnyn nhw. Mae ychydig ohonynt yn magu hyder trwy gymryd rhan mewn gweithdrefnau etholiadol lleol, ond mae cysylltiadau rhwng y Cyngor Ieuenctid a'r gwasanaeth ieuenctid a chwarae ehangach yn gyfyngedig. Mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches ifanc yn cymryd rhan yn dda mewn prosiect pêl-droed, ac ychydig iawn ohonynt yn gwirfoddoli mewn clybiau ieuenctid lleol neu'n symud ymlaen i addysg uwch.

Mae uwch arweinwyr a'r prif swyddog ieuenctid wedi ailddatblygu'r gwasanaeth ieuenctid a chwarae yn fedrus ac wedi cynyddu ei gapasiti o sylfaen isel iawn. Mae clybiau ieuenctid mewn pedwar clwstwr daearyddol yn sicrhau bod pobl ifanc yn gallu manteisio ar ddarpariaeth mynediad agored yn lleol. Mae gwaith partneriaeth da yn bodloni heriau cymdeithasol ac anghenion ystod fwy amrywiol o bobl ifanc yn gynyddol, yn ogystal â chryfhau ehangder ac ansawdd y ddarpariaeth. Yn gyffredinol, mae ystod y ddarpariaeth ar draws partneriaid yn diwallu anghenion pobl ifanc ar draws y ddinas, gan ddarparu gwaith mynediad agored, targedig ac yn yr ysgol.

Mae clybiau wedi eu staffio'n dda gan weithwyr ieuenctid cymwys ac yn cynnig ystod o weithgareddau, ac mae ychydig ohonynt yn cynnig gwaith prosiect symbylol. Mae gweithwyr ieuenctid yn sicrhau bod pobl ifanc yn ganolog i'r hyn a wnânt. Maent yn ymroddgar a brwdfrydig, ac yn ffurfio perthnasoedd ystyrlon â phobl ifanc. Mae gweithwyr ieuenctid yn cyfeirio pobl ifanc at ddarpariaeth bartner a chymorth ehangach, ond nid yw pobl ifanc bob amser yn ymwybodol o ble y gallant gael cymorth penodol pan fydd ei angen arnynt.

Mae darpariaeth dan gontract yr Urdd yn rhoi cyfle i bobl ifanc ddefnyddio'u Cymraeg a dathlu diwylliant Cymru. Mae clybiau ieuenctid yn croesawu pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae ychydig o weithwyr ieuenctid wedi eu hyfforddi mewn niwrowahaniaeth.

Mae partneriaid yn gweithio'n dda i archwilio ffyrdd i fodloni heriau cymdeithasol. Mae partneriaethau'n gryf, mae ganddynt werthoedd ar y cyd ac yn rhoi anghenion pobl ifanc yn gyntaf. Mae'r Cyngor yn defnyddio ystod eang o ffyrddau cyllido i

ddiwallu'r anghenion hyn. Mae'r gwasanaeth ieuenctid a chwarae a'r Cyngor cyfan yn gwrando ar lais pobl ifanc, ond mae angen gwneud mwy i ddarparu ar gyfer yr heriau sy'n wynebu pobl ifanc fregus yng Nghasnewydd.

Mae gan reolwyr y gwasanaeth ieuenctid a chwarae ddiwylliant cryf, ac sy'n gwella, o werthuso ansawdd gwasanaethau, ond nid yw cofnodi'r effaith ar bobl ifanc wedi'i datblygu'n ddigonol. Mae gan y gwasanaeth ethos dysgu proffesiynol cryf a cheir ystod dda o gyfleoedd datblygu ar gyfer staff. Fodd bynnag, nid yw eu blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol wedi'u hamlinellu'n glir mewn cynllun gwasanaeth blynyddol, gyda thargedau unigol ar gyfer staff.

Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu yn gadarn. Cynigir hyfforddiant i sefydliadau partner, lle bydd rheolwr gwasanaethau o'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Cyngor yn sicrhau ansawdd gweithdrefnau. Ceir systemau cadarn ar gyfer cynllunio gweithdrefnau diogelwch ar gyfer tripiâu ac ymweliadau. Fodd bynnag, nid yw gweithwyr wedi cael hyfforddiant mewn Atal na materion camfanteisio ar blant eto.

Cynhelir darpariaeth mynediad agored yn briodol mewn adeiladau cymunedol a rennir lle caiff pobl ifanc eu croesawu yn eu cymunedau. Yn ddiweddar, mae'r gwasanaeth wedi symud i gyfleuster rhagorol wedi'i ailddatblygu yng nghanol Casnewydd. Bydd y cyfleuster hwn yn agor cyn bo hir i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau, yn enwedig i bobl ifanc hŷn. Mae'r gwasanaethau hyn yn gwbl hygyrch trwy gludiant cyhoeddus a byddant yn cynnwys cawodydd, clinig iechyd a siop gwybodaeth ddiuedd.

Caiff gwasanaeth ieuenctid a chwarae Casnewydd ei gynnal a'i reoli'n dda ac mae'n datblygu darpariaeth newydd. Ceir darpariaeth gwasanaeth ieuenctid a chwarae graidd a gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau partner.

Beth allwch chi ei ddisgwyl gan wasanaeth ieuenctid a chwarae Casnewydd:

- Clybiau ieuenctid mynediad agored lleol lle mae'r gweithwyr ieuenctid yn darparu gweithgareddau wedi'u dewis gennych chi. Mae clybiau chwarae ar gyfer plant ar gael, hefyd.
- Clybiau sy'n croesawu'r holl bobl ifanc hyd yn oed os oes angen cymorth ychwanegol arnoch chi.
- Gweithwyr ieuenctid ymroddgar, wedi'u hyfforddi'n dda, sy'n deall eich anghenion ac yn eich cefnogi.
- Darpariaeth arbenigol fel cymorth os ydych chi'n cael trafferth yn yr ysgol, help i ddefnyddio'r Gymraeg a chyfleoedd i gymryd rhan yng nghynllun Gwobr Agored Dug Caeredin.
- Cyngor Ieuenctid Dinas Casnewydd lle gwrandewir ar eich barn, a byddwch yn cael cyfle i ddylanwadu ar wasanaethau lleol. Bydd hyn yn rhoi profiad i chi o sut mae democratiaeth yn gweithio, hefyd.
- Mae adeilad newydd ar fin agor yng nghanol y ddinas lle bydd mwy o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc hŷn fel cawodydd, clwb gwaith cartref, a chlinig iechyd a chyfle i gael cyngor diduedd.

Beth na fyddwch yn ei gael, efallai (gallai'r cyfleoedd hyn gael eu cynnig gan sefydliadau gwaith ieuenctid eraill yng Nghasnewydd):

- Gweithwyr ieuenctid a fydd yn cyfarfod â chi ac yn eich cefnogi ar y strydoedd ym mhob ardal (gwaith ieuenctid datgysylltiedig).
- Cyfeirio at wasanaethau mwy arbenigol bob tro.
- Ystod eang o gyfleoedd addysg anffurfiol.
- Cyfle i elwa ar gyfleoedd artistig fel dawnns, celf, cerddoriaeth a drama.

Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

- A1 Amlinellu strategaeth glir ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid a chwarae trwy fapio darpariaeth gwaith ieuenctid ar draws ardal yr awdurdod lleol, a datblygu cynllun i gydlynu'r gwasanaethau ar draws partneriaid mewnol ac allanol yng Nghasnewydd i sicrhau bod anghenion pobl ifanc yn cael eu diwallu
- A2 Cryfhau proses hunanwerthuso'r gwasanaeth ieuenctid a chwarae i gynorthwyo cynllunio gwelliant a mesur a gwerthuso effaith gwaith ieuenctid ar bobl ifanc yn fwy cywir
- A3 Cynyddu cyfranogiad a hysbysebu gwasanaethau'n ehangach fel bod mwy o bobl ifanc yn manteisio ar gyfleoedd gwaith ieuenctid yn rheolaidd

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif werthusiad

Sut mae gwaith ieuenctid yn helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial?

1.1 Addysgiadol

Mae llawer o'r ddarpariaeth gwaith ieuenctid bresennol yn canolbwyntio ar feithrin perthnasoedd â phobl ifanc a chyd-greu'r cynnig gwaith ieuenctid yn y dyfodol gyda nhw. O ganlyniad, mae pobl ifanc yn elwa ar weithgareddau y maent yn eu mwynhau ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig. Mewn sesiynau clwb ieuenctid, mae pobl ifanc yn datblygu eu dealltwriaeth o berthnasoedd personol a rhywiol a materion cymdeithasol trwy siarad â gweithwyr ieuenctid tra'n ymgymryd â gweithgareddau celf a chreffft difyr neu'n chwarae gemau. Mae ychydig o bobl ifanc yn dysgu'n fwy ffurfiol am ddiogelwch bwyd, camddefnyddio sylweddau, ac iechyd meddwl a lles. Mae llawer o bobl ifanc yn gyfeillgar, yn huawdl, yn mynegi eu barn yn dda ac yn hapus i siarad ag

oedolion. Maent yn ymddwyn yn briodol ac yn cymysgu'n dda â'i gilydd yn eu cymunedau eu hunain.

Yn ASPIRE, sy'n rhan o brosiect y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, mae pobl ifanc yn dilyn llwybr addysg mwy ffurfiol oddi ar safle'r ysgol. Mae'r gweithwyr ieuenctid yn ennyn diddordeb y bobl ifanc mewn gweithgareddau pwrpasol, yn aml yn yr awyr agored, yn ystod amser cinio. Mae'r bobl ifanc hyn yn gwella'u hymddygiad a'u presenoldeb, ac fe gaiff y gwaith hwn ei werthfawrogi'n fawr gan yr ysgolion sy'n cymryd rhan.

Trwy gymryd rhan yng nghynllun Gwobr Agored Dug Caeredin, mae ychydig o bobl ifanc, na fyddent fel arfer yn gallu elwa ar y rhaglen, yn dysgu meithrin hunanddibyniaeth a medrau bywyd awyr agored gwerthfawr. Trwy brosiect y Podlediad, mae pobl ifanc yn mynegi eu barn, yn dysgu medrau digidol ac yn dod yn gyfarwydd ag offer technegol. Yng ngweithgareddau'r Urdd, mae pobl ifanc yn defnyddio'u Cymraeg y tu allan i leoliadau addysg ffurfiol, yn dysgu am ddiwylliant Cymru ac yn ennill profiad ehangach o'r gymuned Gymraeg trwy ymweld â'r Eisteddfod.

Mae pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn y clwb ieuenctid a gefnogir yn dysgu cymdeithasu a chymysgu'n dda â phobl ifanc eraill. Maent yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol â gweithwyr ieuenctid sy'n eu helpu i ddatblygu a deall y byd o'u cwmpas. Mae'r clwb yn ddarpariaeth hanfodol a gwerthfawr iawn lle mae'r bobl ifanc yn tyfu a datblygu ac yn dysgu derbyn eu hunain fel y maen nhw. Mae rhieni o'r farn fod mynychu'r clwb wedi gwednewid bywydau'r bobl ifanc ac wedi gwneud rhieni'n fwy hyderus i roi mwy o annibyniaeth i'w pobl ifanc. Dywedodd un fam, 'Mae'n teimlo fel pe bai'r ffaith fod e' yma wedi helpu iddo dyfu.'

Cafodd ychydig o fenywod ifanc a gymerodd ran ym mhrosiect Diwrnod Rhyngwladol y Menywod gyfleoedd i gyfarfod â menywod ifanc o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig, ac maent yn dechrau deall materion yn ymwneud â bod yn fenyw yn y gymdeithas gyfoes.

Mae ychydig o bobl ifanc yn manteisio ar gyfleoedd achredu, yn cynnwys cymwysterau fel cymorth cyntaf, hylendid bwyd, cynllun Gwobr Dug Caeredin, neu'n ennill tystysgrifau cydnabyddiaeth leol ar gyfer pobl ifanc.

1.2 Mynegiannol

Mae llawer o bobl ifanc ar draws lleoliadau amrywiol yn ymateb yn gadarnhaol i weithgareddau ac yn mynegi eu hunain yn dda. Er enghraifft, mae grŵp o ddisgyblion ysgol sy'n ferched ar raglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cyflwyno awgrymiadau am destunau perthnasol fel delwedd y corff, rhywioldeb, a siarad â rhieni am iechyd meddwl. Mae'r syniadau hyn yn llywio rhaglen ddysgu 12 wythnos ystyrlon, lle gall pobl ifanc siarad am eu teimladau, tueddiadau di-fudd ar gyfryngau cymdeithasol a phwysau gan gyfoedion.

Mae pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn cyfle podlediad yn cyfrannu'n hyderus ac yn mynegi eu hunain yn briodol yng nghyd-destun podlediad yn canolbwyntio ar gemau fideo, sef pwnc y maent yn amlwg yn wybodus amdano. Maent yn ymateb yn dda i sbardunau ac yn siarad yn frwdfrydig, gan ddefnyddio tŷn a goslef amrywiol i sicrhau

arddull ddarlledu ddifyr. Maent yn rhyngweithio â'i gilydd yn dda ac yn barchus o ran cymryd eu tro, yn dangos diddordeb ac yn ymateb i gwestiynau.

Mewn clwb ieuenctid amser cinio yn yr ysgol, mae disgyblion Blwyddyn 7 yn rhannu syniadau am weithgareddau yr hoffent eu cynnwys mewn sesiynau yn y dyfodol. Maent yn gwneud hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, yn cynnwys trwy drafodaethau uniongyrchol â gweithwyr ieuenctid, trwy ychwanegu syniadau at siart droi, a phleidleisio trwy bleidlais ar-lein. Maent yn frwdfrydig am y gweithgareddau posibl sydd ar gael iddynt ac yn barod i rannu eu meysydd diddordeb.

Fodd bynnag, nid yw cysylltiadau â sefydliadau yn yr ardal sy'n darparu cyfleoedd artistig, dawns a cherddoriaeth wedi'u datblygu'n ddigonol, ac felly, nid yw pobl ifanc sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r gwasanaeth ieuenctid a chwarae yn datblygu eu medrau artistig a mynegiannol ddigon.

1.3 Cyfranogol

Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn dangos lefelau ymgysylltu cryf mewn sesiynau strwythuredig a mwy ffurfiol, fel ei gilydd. Maent yn cymryd rhan mewn sesiynau â brwdfrydedd. Mewn sesiwn yn yr ysgol, mae grŵp o ferched ifanc bregus yn ymateb yn dda pan gânt wahoddiad i wneud penderfyniadau ar sut maent eisiau cwblhau gwaith, rhannu syniadau, a datblygu prosiectau. Er enghraifft, maent yn dewis gweithgaredd trafod dros dasg ysgrifenedig ac yn dewis cydweithio i gwblhau tasg grŵp cyfan ar fwrdd gwyn y dosbarth.

Mae pobl ifanc mewn clwb ieuenctid gyda'r nos yn disgrifio'r modd mae tripiau a gweithgareddau wedi eu galluogi i brofi heriau newydd fel dringo creigiau, abseilio, a sglefrio ar rew. Maent yn pwysleisio bod y profiadau hyn wedi bod yn ganolog o ran hybu eu hyder a'u hunan-barch.

Mae Cyngor Ieuenctid Dinas Casnewydd wedi hen ennill ei blwyf ac yn chwarae rôl weithredol yn cynrychioli llais pobl ifanc i'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau. Yn ddiweddar, mae wedi datblygu cysylltiadau â'r gwasanaeth ieuenctid a chwarae ac yn chwarae rôl bwysig mewn rhannu gwybodaeth am gymunedau lleol ac yn dylanwadu ar weithgareddau. Er mai megis dechrau cael eu creu y mae'r cysylltiadau rhwng y gwasanaeth ieuenctid a chwarae a'r Cyngor Ieuenctid, roedd gan gynrychiolwyr y Cyngor rôl arwyddocaol a gwerthfawr yn y broses recriwtio ddiweddar ar gyfer swyddog cyfranogiad ac ymgysylltu yn y gwasanaeth ieuenctid a chwarae trwy osod cwestiynau cyfweliad a bod yn aelod o'r panel cyfweld.

1.4 Cynhwysol

Mae'r ffoaduriaid a'r ceiswyr lloches ifanc sy'n cymryd rhan ym mhrosiect pêl-droed GAP yn goresgyn y rhwystrau a achosir gan y peryglon yr oeddent yn eu hwynebu yn eu gwledydd cartref a meithrin perthnasoedd cadarnhaol â gweithwyr ieuenctid. Mae lleiafrif ohonynt yn ymuno â gwasanaethau ieuenctid a chwarae ehangach fel clybiau ieuenctid a chynllun Gwobr Dug Caeredin. Mae un person ifanc wedi mynd ymlaen i wirfoddoli mewn clwb ieuenctid, a'i uchelgais yw bod yn weithiwr ieuenctid ei hun. Mae un arall bellach yn astudio'r gyfraith a throseddeg yn y brifysgol.

Ciplun: Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n ddynion

Mae GAP yn elusen sy'n gweithio gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghasnewydd. Mae'r gwasanaeth ieuenctid a chwarae yn rhoi arian o'r grant cymorth ieuenctid i GAP. Mae'r arian hwn yn ariannu'r prosiect pêl-droed a gynhelir unwaith yr wythnos ac sy'n cael ei gyd-gyflwyno gan GAP, Casnewydd Fyw, a'r gwasanaeth ieuenctid a chwarae. Mae tua 20 o bobl ifanc yn cymryd rhan yn y sesiwn yn rheolaidd, a llawer ohonynt yn dod yn syth o'r coleg addysg bellach dros y ffordd, lle maent yn dysgu Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE). Pêl-droed yw'r prif atyniad ac mae wedi galluogi staff i feithrin perthnasoedd â'r bobl ifanc sy'n wylidwrs o ddiethriaid oherwydd y peryglon roeddent yn eu hwynebu yn eu gwledydd cartref. Mae'r gweithwyr ieuenctid wedi creu cysylltiadau â'r bobl ifanc a staff y coleg sy'n gweithio gyda nhw. Rhennir gwybodaeth yn dda rhwng y sefydliadau i sicrhau bod y bobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel rhag y risg ddwysach o gamfanteisio y maent yn ei hwynebu. Mae'r gweithwyr ieuenctid yn wybodus am risgiau camfanteisio troseddol sy'n wynebu gwahanol grwpiau ethnig a'r anawsterau y deuir ar eu traws wrth gofrestru'r bobl ifanc, sy'n eu rhwystro rhag manteisio ar gymorth. Mae'r gweithwyr ieuenctid wedi trefnu mynd i'r coleg i barhau i weithio gyda'r bobl ifanc, a'u cefnogi. Mae gweithwyr ieuenctid wedi trefnu siarad â'r ffoaduriaid benywaidd sy'n defnyddio GAP hefyd i ddatblygu gweithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt.

Mae pobl ifanc yn groesawgar i'w gilydd yn eu hardaloedd lleol, ar y cyfan. Mae ychydig ohonynt wedi dod ynghyd i ddathlu diwylliannau eraill, er enghraifft trwy fynychu parti Eid, ond yn gyffredinol, yn y gwasanaeth ieuenctid a chwarae, nid yw pobl ifanc yn datblygu eu medrau cynwysoldeb trwy weithgareddau sy'n dod â gwahanol gymunedau a diwylliannau at ei gilydd.

1.5 Grymuso

Caiff y gweithgareddau mewn clybiau ieuenctid eu harwain gan bobl ifanc. Mae hyn yn eu grymuso i wneud dewisiadau ynglŷn â'r hyn y maent eisiau ei wneud â'u hamser hamdden. Yn benodol, mae pobl ifanc ag anawsterau dysgu, gyda chefnogaeth gan weithwyr ieuenctid, yn cael eu grymuso i ddewis beth yr hoffent ei wneud mewn amgylchedd diogel. Mae hyn yn eu helpu i ddod yn fwy hunanymwybodol a hunanhyderus, ac aeddfedu fel pobl ifanc.

Mewn ychydig o achosion, mae pobl ifanc yn ymgymryd â rolau gwirfoddoli ac arwain. Er enghraifft, mae pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn prosiect pêl-droed allymestyn yn gwirfoddoli i helpu mewn sesiynau, gwrando ar bryderon pobl ifanc eraill a dod yn fodolau rôl. Caiff pobl ifanc eraill gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n eu galluogi i roi cynnig ar brofiadau newydd.

O ganlyniad i 'Ddiwrnod Democratiaeth', mae pobl ifanc yn dysgu am systemau etholiadol Prydain a Chymru. Mae un person ifanc wedi ymgymryd â rôl clerc pleidleisio. Cefnogir person ifanc arall gan y gwasanaeth ieuenctid a chwarae i sefyll fel ymgeisydd ar gyfer Senedd Ieuenctid Cymru.

Ciplun: Menywod ifanc yn ehangu eu gorwelion ac yn datblygu eu barn yn canolbwyntio ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod.

Mae grŵp o fenywod ifanc bregus wedi bod yn cyfarfod ers tro, ar gyfer gweithgareddau yn gysylltiedig â Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Maent wedi ffurfio cynghrair â menywod ifanc yng ngogledd Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Ar drip diweddar i'r Alban, buont yn ymweld â lleoedd o ddiddordeb ac yn dysgu am fywyd y tu allan i'w cymuned leol yng Nghymru. Maent yn dechrau trafod materion a heriau am fod yn fenyw ifanc mewn cymdeithas gyfoes gyda'r ffrindiau a wnânt ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r grŵp yn bwriadu cynnal digwyddiad yng Nghasnewydd ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod nesaf yn 2025. Mae gan y menywod ifanc lyfrau ffotograffau deniadol i'w hatgoffa am eu profiadau.

Beth all pobl ifanc ei ddisgwyl o ddarpariaeth gwaith ieuenctid

Yn sgil gweithredu model newydd ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid a chwarae yn 2022, mae'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc ar draws dinas Casnewydd wedi gwella'n sylweddol ac yn datblygu'n briodol. Mae gan bobl ifanc a'u teuluoedd yn ymddiried mewn gweithwyr ieuenctid, a'u parchu, ac yn tystio i'r effaith gadarnhaol y maent wedi'i chael yn eu bywydau.

Mae gweithwyr ieuenctid yn sicrhau bod anghenion pobl ifanc wrth wraidd popeth a wnânt. Maent yn darparu gofodau diogel buddiol i bobl ifanc gyfarfod ag oedolion y gellir ymddiried ynddynt, a chymdeithasu â'u cyfoedion. Dros gyfnod, mae pobl ifanc yn dechrau cynyddu eu cyfranogiad yn y ddarpariaeth a gynigir. Fodd bynnag, mae cyfraddau cyfranogiad, yn enwedig gan y rhai sy'n 16 oed neu'n hŷn, yn parhau i fod yn isel o gymharu â gwasanaethau ieuenctid a chwarae eraill ledled Cymru sydd â chyd-destunau tebyg.

Mae gweithwyr ieuenctid wedi ymrwymo i'r rolau y maent yn ymgymryd â nhw gyda brwdfrydedd ac ymroddiad. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol â phobl ifanc ac yn datblygu perthnasoedd ystyrlon â nhw. Mae hyn yn gryfder nodedig yn y ddarpariaeth. Maent yn ymwybodol o anghenion a diddordebau pobl ifanc ac yn addasu'r ddarpariaeth yn unol â hynny. Trwy arfer fyfyrion reolaidd, mae gweithwyr ieuenctid yn adolygu a gwerthuso'r ddarpariaeth ac yn gwneud newidiadau i ymateb i ddiddordebau ac awgrymiadau pobl ifanc. Ar draws y ddinas, ceir ychydig o enghreifftiau o waith ieuenctid eithriadol o dda, lle caiff gweithwyr ieuenctid effaith hynod gadarnhaol ar bobl ifanc.

Mae gwaith partneriaeth cadarnhaol yn dechrau cryfhau'r cynnig gwaith ieuenctid ar draws y ddinas, ac mae sefydliadau partner yn sôn am fanteision y dull hwn, ac yn ei werthfawrogi. Ceir perthnasoedd gwaith da rhwng gwasanaethau ieuenctid a chwarae yng Nghasnewydd a'u partneriaid, er enghraifft gydag ysgolion a'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid. Mae hyn yn dechrau cryfhau ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc. Mae'r partneriaethau hyn yn dechrau galluogi'r gwasanaeth ieuenctid a chwarae i ddarparu neu hwyluso gwaith ieuenctid sy'n diwallu anghenion llawer o bobl ifanc yn dda ar draws y ddinas, ar y cyfan.

Mae'r strwythur yn cefnogi cyflwyno gwaith cyffredinol a thargedig, yn cynnwys clybiau ieuenctid, gwaith prosiect, a sesiynau yn yr ysgol. Cefnogir gwaith ieuenctid allymestyn gan waith partneriaeth, er enghraifft gyda Casnewydd Fyw a'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i gefnogi pobl ifanc trwy ddarpariaeth ddatgysylltiedig yn gyfyngedig ar hyn o bryd.

Mae'r cynnig cwricwlwm yn cyd-fynd â Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid Cymru gydag ymrwymiad i'r cynnig 'yn gwbl hygyrch a chynhwysol'. Yn sgil cyfnod ymgynghori diweddar, datblygwyd cynllun cwricwlwm ac mae'n dechrau cael ei roi ar waith. Lle mae darpariaeth gwaith ieuenctid ar gael, mae'n effeithiol, ar y cyfan, o ran diwallu anghenion pobl ifanc.

Mae gan ddarpariaeth gyffredinol mynediad agored rôl bwysig yng ngwaith y gwasanaeth. Mae clybiau ieuenctid wedi eu staffio'n dda iawn ac yn cynnig ystod o weithgareddau, yn cynnwys chwaraeon, celf a chrefft, gemau a gemau bwrdd. Mae llawer ohonynt yn cynnig ardaloedd 'ymdawelu' i bobl ifanc ymlacio mewn gofod diogel. Mae ychydig o glybiau'n cynnig gweithgareddau ysgogol fel cymryd rhan mewn podlediadau a dysgu bod yn DJ. Yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth wedi'i hamserlennu gyda'r nos, ac mae'r gwasanaeth wedi sefydlu clybiau amser cinio yn ddiweddar ar ôl ymgynghori â phobl ifanc ac ysgolion. Er bod y ddarpariaeth yn galluogi llawer o bobl ifanc i ddatblygu eu medrau cymdeithasol yn dda, nid yw'r ystod a'r ansawdd bob amser yn eu galluogi i wneud cynnydd trwy ymgymryd â phrofiadau dysgu ehangach.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid a chwarae yn datblygu partneriaethau llwyddiannus ag ysgolion ar draws y ddinas. Mae ysgolion yn cydnabod a deall gwerth gwaith ieuenctid ac yn mynd ati i hyrwyddo cyfleoedd gwasanaeth ieuenctid a chwarae ymhlith disgyblion a rhieni. Trwy ymyriadau targedig, mae gweithwyr ieuenctid yn darparu cymorth mwy arbenigol ar gyfer gweithwyr ieuenctid yn gysylltiedig ag iechyd meddwl a lles, perthnasoedd iach, iechyd emosiynol a datblygu medrau cymdeithasol. Mae enghraifft dda yn cynnwys y gwaith grŵp targedig mewn ysgolion sy'n helpu pobl ifanc i ddeall perthnasoedd iach ac afiach, ac adnabod rheolaeth drwy orfodaeth. Mae gweithwyr ieuenctid yn rhaglen y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid hefyd yn darparu cymorth targedig ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu gwahardd, trwy ddatblygu rhaglenni pwrpasol sy'n mynd i'r afael â heriau y daw pobl ifanc ar eu traws sy'n eu hatal rhag ymgysylltu a chymryd rhan. Lle mae hyn yn fwyaf effeithiol, mae'r gwaith targedig hwn yn cefnogi pobl ifanc yn llwyddiannus i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dewisiadau bywyd.

Lle bo'n briodol, mae gweithwyr ieuenctid yn cyfeirio pobl ifanc at gymorth arbenigol. Fodd bynnag, fel y mynegwyd yn arolwg Estyn i bobl ifanc, dywedodd tua hanner a ymatebodd nad ydynt bob amser yn derbyn gwybodaeth am y gwasanaethau arbenigol sydd ar gael iddynt.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid a chwarae yn contractio'i ddarpariaeth Gymraeg i'r Urdd i gyflwyno gwaith ieuenctid yn Gymraeg ar ei ran. Mae'r clwb ar ôl yr ysgol, a gynhelir gan yr Urdd, yn Ysgol Uwchradd Casnewydd, sy'n ysgol cyfrwng Saesneg, yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu â gweithwyr ieuenctid sy'n annog ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r cynnig Gymraeg yn ymestyn i ysgolion eraill lle mae clybiau ar ôl yr ysgol yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu eu medrau Gymraeg trwy annog a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith. Caiff adnoddau defnyddiol, a grëwyd gan

yr Urdd, eu rhannu ar draws y gwasanaeth i ymgysylltu â phobl ifanc i hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg, ei diwylliant a'i thraddodiadau. Lle mae'r cyfleoedd hyn yn bodoli, mae pobl ifanc yn ymgysylltu'n ddefnyddiol â gweithgareddau Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gael yn gyfartal i bobl ifanc ym mhob ardal o'r ddinas. Nid yw'r cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu am amrywiaeth ddiwylliannol Cymru wedi'u datblygu ddigon.

Mae gweithwyr ieuenctid yn grymuso pobl ifanc i gael eu lleisiau wedi'u clywed am faterion sy'n effeithio arnynt trwy ymgynghori, ac o ganlyniad, gallant ddylanwadu ar y ddarpariaeth. Trwy ddatblygu ystod o weithgareddau a digwyddiadau, mae'r gwasanaeth yn cefnogi llais pobl ifanc yn dda trwy ddigwyddiadau fel 'Caerleon Winter Warmer' lle bu pobl ifanc yn archwilio'r manteision a'r risgiau o fewn eu cymuned. Gyda chefnogaeth gweithwyr ieuenctid, mae'r Cyngor Ieuenctid yn gwneud cyfraniad pwysig at ffurfio profiadau pobl ifanc ar draws y ddinas. Enghraifft dda yw'r digwyddiad 'Croeso i'ch Pleidlais' ('Welcome to Your Vote'), lle roedd aelodau o'r Cyngor Ieuenctid yn sicrhau cymorth y Comisiwn Etholiadol i ysgogi profiad 'pleidleisio' go iawn ar gyfer pobl ifanc. Mae gwaith ieuenctid, lle caiff ei gyflwyno, yn effeithiol ar y cyfan o ran annog pobl ifanc i gymryd rhan, ac mae'n dechrau datblygu medrau dinasyddiaeth pobl ifanc.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid a chwarae wedi dechrau cryfhau ei gefnogaeth arbenigol ar gyfer pobl ifanc â rhwystrau a nodwyd rhag ymgysylltu a chyfranogi. Er enghraifft, maent yn gweithio gyda phrosiect 'Costau Byw' i ddarparu bwyd a diod yn ystod sesiynau mynediad agored, yn cefnogi pobl ifanc ag anableddau i gymryd rhan yng nghynllun Gwobr Dug Caeredin, ac yn cydweithio â Casnewydd Fyw a GAP i gynnal sesiynau chwaraeon ar gyfer pobl ifanc sy'n geiswyr lloches neu'n ffoaduriaid. Mae'r prosiectau hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol iawn ar ddatblygu ymdeimlad o berthyn i bobl ifanc a allai ymddieithrio neu gael eu gwahardd fel arall.

Mae clybiau ieuenctid ar draws y ddinas yn gynhwysol a chroesawgar ar gyfer pobl ifanc ag ADY. Mae ychydig o weithwyr ieuenctid wedi cael hyfforddiant i ddeall niwrowahaniaeth. Mae staff yn y clybiau ieuenctid yn cysylltu'n llwyddiannus ag ysgolion a rhieni a gofalwyr i ddeall anghenion pobl ifanc ag ADY, gan greu proffiliau un dudalen a 'phasbortau i chwarae'. Mae hyn yn galluogi gweithwyr ieuenctid i addasu gweithgareddau i ddileu unrhyw rwystrau a allai atal pobl ifanc ag ADY rhag cymryd rhan yn y ddarpariaeth, fel arall.

Ciplun: Gofod lle gall pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol wneud ffrindiau a datblygu annibyniaeth

Mewn cydweithrediad â'r Tîm Plant Anabl, mae'r gwasanaeth ieuenctid a chwarae wedi sefydlu clwb arbenigol ar gyfer pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r clwb ieuenctid a gefnogir yn Y Tŷ Du yn cynnal sesiynau wythnosol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY rhwng 11 a 25 mlwydd oed. Nod y clwb yw meithrin perthnasoedd ymddiriedus â'r bobl ifanc a rhoi cyfleoedd iddynt wneud ffrindiau. Mae'r clwb yn cefnogi'r bobl ifanc hyn yn llwyddiannus i ddatblygu eu hyder, eu hunan-barch a'u hannibyniaeth, gyda bwriad i'w galluogi i ymgymryd â darpariaethau ieuenctid prif ffrwd. Mae'r bobl ifanc yn chwarae, yn cymdeithasu ac yn dysgu medrau newydd. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, celf a chrefft, a gweithgareddau gemau. Ceir cyfleoedd iddynt ddatblygu medrau byw yn annibynnol pwysig fel gwneud

penderfyniadau a thrin arian. Mae'r bobl ifanc a'u rhieni a'u gofalwyr yn gadarnhaol iawn am effaith y ddarpariaeth hon ar y rhai sy'n mynychu. Er enghraifft, maent yn disgrifio'r modd y mae'r ddarpariaeth wedi eu galluogi i wneud cyfeillgarwch cynaliadwy ac wedi gwella'u gwydnwch pan fyddant yn wynebu heriau newydd. Dywed pobl ifanc fod y clwb yn rhoi'r rhyddid iddynt fod yn nhw eu hunain a mynegi eu hunain y tu allan i leoliadau addysg mwy ffurfiol. Mae'n eu galluogi i wneud ffrindiau gyda phobl ifanc eraill o bob cwr o'r ddinas a chael bywyd cymdeithasol. Mae hyn yn helpu eu paratoi ar gyfer trosglwyddo i'r gymdeithas ehangach.

Arwain a gwella

3.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr

Dros y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf, mae gwasanaeth ieuenctid a chwarae Casnewydd wedi llwyddo i ailsefydlu ac ailstrwythuro gwasanaeth a oedd wedi colli llawer iawn o gapasiti ac arbenigedd. Mae'r gwaith, sy'n cael ei arwain yn fedrus gan uwch arweinwyr a phrif swyddog ieuenctid hynod ymroddgar a medrus, wedi datblygu gwasanaeth sydd, o sylfaen isel iawn, yn gwneud cynnydd sylweddol yn ei allu i gefnogi'r bobl ifanc i ddatblygu a chyflawni.

Mae ailstrwythuro'r gwasanaeth yn bedwar clwstwr daearyddol yn helpu i sicrhau bod llawer o bobl ifanc yng Nghasnewydd yn gallu mynychu clwb mynediad agored yn eu hardal. Ochr yn ochr â hyn, mae ystod sy'n ehangu o ddarpariaeth dargedig, yn aml trwy waith partneriaeth, yn diwallu anghenion amrywiol pobl ifanc yn gynyddol. Mae digonolrwydd a chyrhaeddiad y cynnig ieuenctid yn gwella, ond mae tipyn o ffordd i fynd o hyd i gyrraedd lefelau sy'n mynd i'r afael ag amrywiaeth gyfan yr heriau sy'n wynebu pobl ifanc fregus yng Nghasnewydd.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid a chwarae yn rhoi pwyslais priodol ar wrando ar safbwyntiau a dyheadau pobl ifanc, a gweithredu yn unol â nhw. Mae'r Cyngor Ieuenctid yn dylanwadu ar bolisïau'r Cyngor sy'n effeithio arno, er enghraifft trwy ymglymiad mewn recriwtio, hyrwyddo a chymryd rhan mewn digwyddiadau ledled y ddinas, a dysgu am y broses ddemocrataidd.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid a chwarae yn gweithio'n dda gyda phartneriaid wedi'u comisiynu sy'n ymestyn ehangder y ddarpariaeth ar draws yr awdurdod lleol. Mae'r partneriaid hyn yn gweithio'n agos gyda swyddogion i archwilio anghenion newydd ac anghenion sy'n dod i'r amlwg, ac yn rhannu tueddiadau a gwybodaeth i helpu cynnig cymorth amserol i bobl ifanc a lleihau dyblygu. Er enghraifft, bu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, yr awdurdod lleol, y Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned a 'Newport Live – positive futures' yn gweithio gyda'i gilydd i ystyried sut i fynd i'r afael ag agweddau ar droseddau â chyllyll a gweithdrefnau clo.

Ceir gwaith partneriaeth cryf rhwng y gwasanaeth ieuenctid a chwarae a chyfarwyddiaethau eraill y Cyngor, sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl ifanc. Rhennir gwybodaeth yn effeithiol am bobl ifanc, wedi'i hategu gan drefn y Cyngor o ran trefniadau goruchwyllo a rhannu gwybodaeth. Mae partneriaethau'n elwa ar ddealltwriaeth glir o werthoedd ar y cyd, ac yn eu harddel, sy'n cefnogi perthnasoedd gweithio effeithiol sy'n cyfrannu at ansawdd a chysondeb y cyflwyno. Mae'r partneriaethau'n galluogi'r gwasanaeth ieuenctid a chwarae i ddarparu neu hwyluso gwaith ieuenctid sy'n diwallu anghenion llawer o bobl ifanc ar draws y ddinas, ar y

cyfan. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio ystod eang o ffrydiau cyllido i gomisiynu darpariaeth gan bartneriaid, sy'n dechrau meithrin ystod ehangach o adnoddau a gweithgareddau i gefnogi a bod o fudd i bobl ifanc.

At ei gilydd, mae'r gwasanaeth ieuenctid a chwarae yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar gyfer pobl ifanc yn dda. Er enghraifft, mae gweithwyr ieuenctid yn dechrau ymgymryd â gweithgareddau'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid. Mae'r gwasanaeth ieuenctid a chwarae hefyd yn gweithio'n agos â'r swyddog digartrefedd a lles i nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae staff gwaith ieuenctid yn cysgodi swyddogion tai i ddysgu mwy am yr heriau sy'n wynebu pobl ifanc ddigartref, a phobl ifanc a allai fod yn ddigartref, sy'n eu helpu i deilwra'u hymyriadau gwaith ieuenctid.

Mae rheolwyr y gwasanaeth ieuenctid a chwarae yn adolygu ansawdd y cynnig ieuenctid ar gyfer ei bobl ifanc yn rheolaidd. Er enghraifft, maent yn ymgynghori â phobl ifanc ac yn ystyried lleoliad ac amseroedd clybiau ieuenctid i alluogi'r ddarpariaeth i fod mor hygyrch ag y bo modd. Ceir diwylliant cryf o werthuso a gwella'r ffordd y cyflwynir y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw cofnodi, adolygu ac adrodd yn ffurfiol fel rhan o hunanwerthuso wedi'i datblygu ddigon, ac nid yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar effaith y ddarpariaeth ar bobl ifanc.

Mae arweinwyr yn creu ethos dysgu proffesiynol cefnogol gyda'u staff, gydag amrywiaeth o gyfleoedd datblygu da. Maent wedi nodi medrau gwaith ieuenctid craidd yn briodol fel y prif angen hyfforddi, maent wedi buddsoddi mewn gwella medrau staff i lefel 3 mewn gwaith ieuenctid, ac wedi sicrhau eu bod wedi eu cofrestru'n briodol. Rhoddwyd cyfle i dri o bobl ifanc 17 ac 18 oed hyfforddi ar gyfer cymhwyster L2 mewn gwaith ieuenctid. Mae staff gwaith chwarae wedi cael hyfforddiant gwaith ieuenctid ar ben eu cymwysterau gwaith chwarae i gynorthwyo yn y cyfnod pontio di-dor o glybiau chwarae i fwy o weithgarwch sy'n canolbwyntio ar waith ieuenctid ar gyfer y bobl ifanc hynny sydd yn eu harddegau cynnar yn eu clybiau. Yn ychwanegol, mae gwasanaeth ieuenctid a chwarae Casnewydd yn cynnig hyfforddiant gwaith ieuenctid i'w partneriaid a gomisiynir i alluogi eu gweithwyr ieuenctid i ennill cymwysterau priodol. Caiff yr incwm a godir o gyflwyno'r hyfforddiant hwn ei ailfuddsoddi mewn darparu cyfleoedd ôl-raddedig i staff gwaith ieuenctid.

Mae staff yn mynd ar ddiwrnodau hyfforddi bob chwarter fel tîm cyfan, er nad yw gwerthuso effaith dysgu proffesiynol ar ansawdd gwaith ieuenctid a datblygiad pobl ifanc wedi'i datblygu ddigon. Mae arweinwyr yn cydnabod y meysydd y mae angen iddynt eu datblygu, er na chaiff y rhain eu mynegi'n glir yn y cynllun gwasanaeth blynyddol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n bennaf ar ailadeiladu'r gwasanaeth a chapasiti'r gwaith ieuenctid o fewn y tîm. Ni chaiff targedau perfformiad eu gosod ar gyfer staff unigol ac mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod angen datblygu'r agwedd hon ar ei waith.

Mae gan y gwasanaeth ieuenctid a chwarae bolisiau ac arferion diogelu priodol a chadarn. Mae gofyniad i'r holl weithwyr ieuenctid gwblhau hyfforddiant diogelu priodol yn gymesur â'u rolau. Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu rôl 'hyrwyddwyr diogelu' gyda'r nod o sicrhau bod egwyddorion sylfaenol diogelu yn parhau i fod yn nodwedd reolaidd o fewn eu hagendâu meysydd gwasanaeth. Mae hyn yn golygu bod diogelu wedi cael ei ymgorffori mewn busnes craidd, ni waeth beth yw'r maes gwasanaeth, ac mae pob un o'r staff yn gwybod gyda phwy i siarad a beth i'w wneud

os oes ganddynt bryder. Mae'r gwasanaeth hefyd yn sicrhau bod unigolyn diogelu dynodedig ar gael ar gyfer pob darpariaeth gwaith ieuenctid.

Mae staff unigol yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu a gyda phwy i gysylltu pan fydd ganddynt bryder. Darperir mentoriaid hefyd i gynorthwyo staff y bu'n rhaid iddynt ddelio â datgeliadau anodd. Mae rheolwr gwasanaeth yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicrhau ansawdd y prosesau mewn asiantaethau partner a gomisiynir gan y gwasanaeth ieuenctid a chwarae.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid a chwarae wedi cymryd rhan flaengar mewn cynllun peilot diogelu cyd-destunol. Roedd problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol cynyddol mewn un ardal fawr, a arweiniodd at ddod â fforwm amlasiantaethol at ei gilydd a oedd yn cynnwys ystod o bartneriaid, er enghraifft yr heddlu a thai. Trwy'r fforwm hwn, roedd y gwasanaeth ieuenctid a chwarae yn gallu codi materion allweddol yn yr ardal, a nodwyd ganddynt drwy sesiynau allymestyn, arolwg pobl ifanc, ac asesiad o'r gymdogaeth. Cafwyd ymateb cadarnhaol gan bartneriaid, ac arweiniodd hyn at roi adnoddau a chyllid ychwanegol ar waith i gefnogi gwaith ieuenctid uniongyrchol gyda phobl ifanc. Mae'r cynllun peilot yn cael ei werthuso i lywio dulliau ar draws Casnewydd.

Mae gwasanaeth ieuenctid a chwarae Casnewydd yn defnyddio system gydnabyddedig ar-lein ar gyfer cynllunio a rheoli triapiau ac ymweliadau. Mae hon yn system gadarn sy'n sicrhau bod gweithdrefnau iechyd a diogelwch manwl yn cael eu dilyn. Mae pob un o'r staff sydd wedi eu hyfforddi i lefel gradd ac yn uwch wedi cael hyfforddiant iechyd a diogelwch ar lefel uwch.

Nid yw testunau diogelu ehangach, er enghraifft Atal, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Chamfanteisio'n Droseddol ar Blant, wedi cael eu cynnwys yn y rhaglen hyfforddi.

Mae gwasanaeth ieuenctid a chwarae Casnewydd yn lleoli darpariaeth ieuenctid yn briodol mewn adeiladau cymunedol a rennir ar draws y ddinas. Mae'r gwasanaeth wedi symud i adeilad newydd yng nghanol y ddinas, yn ddiweddar. Mae'r adeilad yn weithredol fel sylfaen ar gyfer y staff, ond yn parhau i gael ei ddatblygu'n barod ar gyfer darpariaeth ieuenctid. Mae ganddynt gyfleusterau cawodydd a chyfleustodau y gall pobl ifanc ddigartref eu defnyddio. Maent yn cynllunio ar ddefnyddio'r gofod hwn i ddatblygu eu darpariaeth 16+, clybiau gwaith cartref, darpariaeth ar gyfer rhieni ifanc, clwb ieuenctid Cymraeg, clinig iechyd a siop gwybodaeth gyffredinol. Mae'r cyfleusterau a adeiladwyd yn bwrpasol mewn lleoliad da, gyda mynediad hawdd iddynt ar fws neu drên.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Ymwelodd arolygwyr Estyn â gwasanaeth ieuenctid a chwarae Casnewydd am bedwar diwrnod a hanner ym mis Medi a Hydref 2024. Ymwelodd tri arolygydd, un arolygydd ychwanegol a dau arolygydd cymheiriaid ag 15 o sesiynau gwaith ieuenctid a gweithgareddau mewn amrywiaeth o sesiynau ar draws y ddinas. Bu arolygydd Estyn yn cysgodi gwaith yr arolygwyr ac yn mynd gyda nhw i ymweliadau, hefyd.

Yn ogystal, mynychodd arolygwyr 9 o gyfarfodydd gyda gweithwyr ieuenctid, staff yr awdurdod lleol, aelodau etholedig ac ystod o ddarparwyr a phartneriaid wedi'u comisiynu o fewn yr awdurdod lleol ac o asiantaethau allanol. Bu arolygwyr yn craffu ar adroddiadau, dogfennau a data a ddarperir gan wasanaeth ieuenctid a chwarae Casnewydd, hefyd.

Bu arolygwyr yn arsylwi gwaith ieuenctid ac yn siarad â phobl ifanc a gweithwyr ieuenctid. Buont hefyd yn siarad â rhieni a oedd yn dymuno dweud wrth arolygwyr pa mor dda y mae gweithwyr ieuenctid yn cefnogi eu pobl ifanc.

Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. 'y rhan fwyaf o ddisgyblion...' neu 'ychydig iawn o ddisgyblion...'. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|----------------|---------------------------------|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau (2000).

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/12/2024